Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Jones OBE, DL
Cadeirydd Cymwysterau Cymru
a
Philip Blaker,
Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn,
Casnewydd
NP10 8UH

10 Gorffennaf 2020

Annwyl Philip a David

Rwy'n ysgrifennu atoch ynghylch ystyriaethau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol yn 2021. Fel y gwyddoch, wrth i'r pandemig barhau i amharu arnom mae dysgwyr, eu teuluoedd ac ymarferwyr yn gofyn yn gynyddol am sicrwydd ynghylch y trefniadau ar gyfer arholiadau'r flwyddyn nesaf.

Rwy'n gwybod eich bod eisoes yn gwneud gwaith manwl wrth ochr y rheoleiddwyr eraill a CBAC er mwyn adnabod ac asesu'r amrywiol opsiynau posib sydd ar gael i sicrhau nad yw dysgwyr sydd yn paratoi ar gyfer cymwysterau y flwyddyn nesaf dan unrhyw anfantais yn sgil colli cyfleoedd dysgu. Er mwyn lleddfu rhywfaint ar y pryder presennol a rhoi amser i ddysgwyr ac ymarferwyr baratoi'n briodol ar gyfer tymor yr hydref, rwy'n credu bod rhaid i ni gyhoeddi'r dull gweithredu y byddwn yn ei ddilyn, a'r camau nesaf sy'n gysylltiedig â hynny cyn diwedd tymor yr haf. Bydd hefyd yn bwysig darparu'r wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo dros yr haf.

Fel y trafodwyd, er bod ansicrwydd yn parhau ynghylch hynt y pandemig a'r gofynion cysylltiedig ag iechyd y cyhoedd, ar hyn o bryd rwy'n credu mai'r ffordd orau i weithredu er mwyn sicrhau nad yw dysgwyr dan anfantais, a'u bod yn cael y cyfle i arddangos eu potensial llawn, yw paratoi i weld arholiadau 2021 yn mynd yn eu blaen fel arfer - gydag ambell amrywiad i gymryd unrhyw amser dysgu a gollwyd i ystyriaeth. Rwy'n deall y gallai hyn olygu newidiadau i drefniadau asesu, a bod hyn yn debyg o amrywio fesul pwnc, a hefyd fesul lefel cymhwyster. Chi fel rheoleiddiwr fydd yn penderfynu ar hyn, mewn cydweithrediad â CBAC, er mwyn sicrhau dull gweithredu teg a chyson sy'n cynnal hygrededd y system gymwysterau.

Yn ddarostyngedig i'ch cyngor, rwyf hefyd yn barod i ystyried camau ehangach y gellid eu cymryd ar draws y sector Addysg naill ai i greu gofod ychwanegol ar gyfer canolbwyntio ar gymwysterau, neu hwyluso rhai o'r opsiynau yr ydych o bosib yn eu hystyried. Fodd bynnag, rhaid i rhain fod yn gyson â'm blaenoriaethau ehangach ar gyfer diwygio addysg.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf newydd gyhoeddi y bydd mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a chweched dosbarth yn cael eu gohirio eto yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21. Rwyf hefyd yn ystyried Cynllun Dysgu Carlam a fydd yn sefydlu rhaglen o gymorth ar gyfer dysgwyr mewn carfanau â blaenoriaeth - bydd hyn yn cynnwys canolbwyntio'n arbennig ar ddysgwyr a fydd ym Mlynyddoedd 11 ac 13 yn y flwyddyn academaidd nesaf.

Rwyf hefyd yn ymwybodol bod y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yn newid yn gyson, a thu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol er gwaethaf ein holl waith cynllunio, felly rwy'n gofyn eto i chi ddatblygu trefniadau wrth gefn rhag ofn i ni orfod dibynnu unwaith eto ar raddau wedi'u hasesu gan ganolfannau. Wrth wneud hynny'n rwy'n awyddus i wneud yn siŵr ein bod yn manteisio ar ein profiadau a'r gwersi a ddysgwyd o'r system a roddwyd ar waith eleni, er mwyn sicrhau cadernid a thegwch ein system gymwysterau.

Rwy'n cydnabod bod mabwysiadu'r ffordd ddeublyg hon o weithio yn rhoi pwysau ychwanegol arnoch chi a CBAC, ar adeg pan rydych eisoes yn ymateb i alw na welwyd ei debyg o'r blaen. Rodd bynnag, yn sgil yr ansicrwydd presennol a'r risgiau sy'n parhau, rwy'n credu y byddai hyn yn ffordd gall o weithredu. Rwyf wedi ymrwymo i gyfarfod yn rheolaidd gyda chi ar adegau pan fydd angen gwneud penderfyniadau allweddol rhwng nawr ac arholiadau'r haf y flwyddyn nesaf, er mwyn adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael ac ystyried a yw'r dull gweithredu hwn yn parhau i fod yn angenrheidiol.

Rwy'n credu bod ein blaenoriaethau cyffredin wrth wneud y trefniadau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cefnogi iechyd a lles y dysgwyr, ac yn sicrhau nad oes unrhyw un dan anfantais annheg a bod eu cyfleoedd i symud ymlaen yn cael eu diogelu, gan gadw hygrededd a hyder yn ein system gymwysterau. Rwyf hefyd yn cadw mewn cof y bydd angen gwneud ystyriaethau tebyg ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol. Er fy mod yn cydnabod bod hyn yn rhannol ddibynnol ar benderfyniadau sy'n cael eu cymryd ar draws gweddill y DU, mae'n bwysig i mi ein bod ni yng Nghymru, lle bynnag y bo'n bosibl, yn ceisio trin dysgwyr sy'n ymgymryd â chymwysterau galwedigaethol a chyffredinol yn gyfartal.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i chi a'ch staff unwaith eto am eich ymdrechion aruthrol wrth gyflawni'r trefniadau ar gyfer eleni a chynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf. Rwy'n deall yn iawn pa mor enfawr oedd yr her hon.

Yn gywir



Kirsty Williams AS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education